# Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf

# Cynllun Goruchwylio Mannau Cyhoeddus (Teledu Cylch Cyfyng)

RHONDDA CYNON TAF

# TELEDU CYLCH CYFYNG – GWERTHUSIAD

## 1 Ebrill 2023
## Hyd
## 31 Mawrth 2024

**CYNNWYS**


1. **Methodoleg**
2. **Cyflwyniad**
3. **Datganiad Polisi a Disgrifiad o'r Cynllun**
4. **Pwrpas a Chwmpas y Cynllun Teledu Cylch Cyfyng**
5. **Newidiadau o ran Gweithredu, Rheolaeth neu Bolisi**
6. **Cynigion ar gyfer y Cynllun**
7. **Dadansoddi a Gwerthuso Ystadegau**
8. **Casgliad**
9. **ATODIAD 'A' Rhestr o Gamerâu**

**1.0 METHODOLEG**

Mae Cod Ymarfer Teledu Cylch Cyfyng y Comisiynydd Gwybodaeth a'r Cod Ymarfer Camerâu Gwyliadwriaeth yn crybwyll y dylid cynnal adolygiad sy'n asesu effeithiolrwydd y system. Serch hynny, mae Safonau Prydeinig yn benodol ynglŷn â'r meini prawf y mae'n ofynnol eu cynnwys mewn gwerthusiad o'r fath. Fodd bynnag, mae'r Codau Ymarfer sydd wedi'u nodi uchod yn cytuno y dylai canlyniadau'r gwerthusiad fod ar gael i'r cyhoedd.

Dyma'r pynciau y mae'n ofynnol eu cynnwys yn y Safonau Prydeinig:

- Disgrifiad o'r cynllun a'r ardal(oedd) daearyddol mewn perthynas â gweithredu datganiad polisi'r cynllun
- Pwrpas a chwmpas y cynllun
- Unrhyw newidiadau i weithrediad neu reolaeth y cynllun Teledu Cylch Cyfyng
- Unrhyw newidiadau sydd wedi'u gwneud i'r polisi.
- Unrhyw gynigion i ehangu neu leihau gweithrediad y cynllun.
- Nodau ac amcanion y 12 mis nesaf.

Mae'r Safonau Prydeinig hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i'r wybodaeth ganlynol gael ei chynnwys yn y gwerthusiad:

- Nifer yr achosion wedi'u cofnodi gan y cynllun.
- Nifer yr achosion cafodd yr heddlu wybod amdanyn nhw, a chyrff eraill lle bo hynny'n briodol.
- Asesiad o effaith y cynllun Teledu Cylch Cyfyng ar lefelau troseddu a mathau o drosedd yn yr ardal lle mae'r cynllun ar waith.
- Asesiad o effaith y cynllun ar ei amcanion, gan gynnwys

- Nifer yr asesiadau effaith preifatrwydd sydd wedi'u cwblhau.
- Nifer yr adolygiadau o recordiad gan yr heddlu ac asiantaethau awdurdodedig; a
- Nifer yr achosion fesul camera dros y 12 mis blaenorol.

Gan fod Canolfan Rheoli Teledu Cylch Cyfyng Cyngor Rhondda Cynon Taf wedi'i hachredu i'r Safon Brydeinig uchod, bydd y gwerthusiad canlynol yn canolbwyntio ar gynnwys y Safon honno fel yr amlinellir uchod. Yn ogystal â hynny, ardystiwyd bod Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf yn cydymffurfio â Chod Ymarfer Camerâu Gwyliadwriaeth.

## 2.0 CYFLWYNIAD

### 2.1 Disgrifiad o'r cynllun

Mae 139 o gamerâu cwbl weithredol wedi'u gosod mewn lleoliadau strategol ledled Rhondda Cynon Taf. Mae hefyd 12 o gamerâu mae modd eu hadleoli a ddefnyddwyd yn ystod y cyfnod gwerthuso.

Yn ogystal â monitro camerâu gwyliadwriaeth mannau cyhoeddus, mae canolfan rheoli Teledu Cylch Cyfyng Rhondda Cynon Taf yn monitro systemau camera o wahanol safleoedd, gan gynnwys Ysgolion, depos a swyddfeydd y cyngor.

Mae'r system yn cael ei gweithredu a'i monitro 24 awr y dydd, 365 diwrnod y flwyddyn, gan staff hyfforddedig ac ymroddedig yn y Ganolfan Rheoli Teledu Cylch Cyfyng.

**3.0 DATGANIAD POLISI A DISGRIFIAD O'R CYNLLUN**

**3.1 Teledu Cylch Cyfyng**

I ddechrau, roedd y cynllun yn cynnwys camerâu wedi'u lleoli mewn lleoliadau allanol penodol gyda chyfleusterau rheoli, monitro a chofnodi mewn lleoliad pwrpasol. Defnyddiwyd proses sy'n canolbwyntio ar broblemau i asesu priodoldeb Teledu Cylch Cyfyng yn yr ardal. Felly mae'r camerâu wedi eu lleoli i gasglu delweddau sy'n berthnasol i ddibenion y cynllun. Amlinellir dibenion y cynllun Teledu Cylch Cyfyng yn ddiweddarach yn yr adroddiad hwn.

**3.2 Perchnogaeth**

Cyngor Rhondda Cynon Taf sy'n berchen ar y cynllun ac mae'n gyfrifol am faterion rheoli, gweinyddu a diogelwch y system. Bydd Cyngor RhCT yn sicrhau bod unigolion a'r cyhoedd yn cael eu hamddiffyn drwy gydymffurfio â'r Codau Ymarfer.

Pe hoffai'r cyhoedd gysylltu â pherchnogion y cynllun:

E-bost: YmwelyddCCTV@rctcbc.gov.uk
Ffôn: 01443 425005

Bydd modd i'r cyhoedd ddefnyddio'r dulliau cyswllt yma yn ystod oriau swyddfa. Bydd ymholwyr yn derbyn y dogfennau perthnasol ar gais.

**3.3 Datganiad Polisi**

Hybu hyder y cyhoedd trwy ddatblygu amgylchedd diogel er budd staff a'r rheiny sy'n ymweld â'r ardal neu'n ei defnyddio.

Ysbrydoli hyder y cyhoedd drwy sicrhau bod yr holl systemau Teledu Cylch Cyfyng sydd wedi'u cysylltu â Chanolfan Rheoli Teledu Cylch Cyfyng Cyngor Rhondda Cynon Taf yn cael eu gweithredu mewn modd a fydd yn sicrhau eu heffeithiolrwydd cyson ac yn diogelu rhyddid sifil dinasyddion sy'n ufudd i'r gyfraith bob amser .

**4.0 PWRPAS A CHWMPAS Y CYNLLUN**

**4.1 Amcanion y cynllun**

Dyma'r amcanion y sefydlwyd system Teledu Cylch Cyfyng Cyngor Rhondda Cynon Taf ar eu cyfer:

- *Helpu i leddfu ofn o ran trosedd*
- *Helpu i atal troseddau*
- *Helpu i ganfod troseddau a darparu deunydd tystiolaethol ar gyfer achosion llys*
- *Cynorthwyo wrth reoli canol trefi yn gyffredinol yn Rhondda Cynon Taf a gwmpesir gan ei system teledu cylch cyfyng canol trefi*
- *Gwella diogelwch yn y gymuned, cynorthwyo wrth ddatblygu lles economaidd yr ardal ac annog mwy o ddefnydd o ganol trefi, meysydd parcio, ardaloedd siopa ac ati.*
- *Cynorthwyo'r Awdurdod Lleol yn ei swyddogaethau gorfodi a rheoleiddio yn yr ardaloedd a gwmpesir*
- *Cynorthwyo wrth gefnogi achosion sifil a fydd yn helpu i ganfod troseddau*
- *Cynorthwyo wrth hyfforddi gweithredwr Teledu Cylch Cyfyng, yr Heddlu ac eraill sy'n gysylltiedig â defnyddio'r system Teledu Cylch Cyfyng*

**4.2 Cwmpas y cynllun**

Mae'r camerâu wedi eu lleoli i gasglu delweddau sy'n berthnasol i ddibenion y cynllun.
Bydd y cynllun yn cael ei weithredu'n deg, o fewn y gyfraith berthnasol a dim ond at y dibenion y cafodd ei sefydlu ar eu cyfer neu y cytunir arnynt wedyn yn unol â'r Cod Ymarfer.
Mae gweithredwyr yn ymwybodol o'r diben(ion) y sefydlwyd y cynllun ar ei gyfer/eu cyfer a dim ond i gyflawni'r dibenion a nodwyd y defnyddir yr offer Teledu Cylch Cyfyng.
Bydd y cynllun yn cael ei weithredu mewn modd sy'n rhoi sylw priodol i breifatrwydd unigolion.
Cyn gosod camerâu mewn ardaloedd preswyl caiff ymgynghoriad ei gynnal â thrigolion yr ardal honno ynglŷn â'r system arfaethedig. Bydd canlyniadau'r ymgynghoriad yn cael eu hystyried.

Bydd budd y cyhoedd wrth weithredu'r cynllun yn cael ei gydnabod drwy sicrhau diogelwch a chywirdeb gweithdrefnau gweithredol.
Dim ond staff hyfforddedig ac awdurdodedig fydd yn gallu defnyddio'r system.
Bydd gwerthusiad o'r cynllun yn cael ei gynnal bob blwyddyn a bydd hwn ar gael i'r cyhoedd mewn lleoliadau penodol.
Mae'r Cyngor a phartneriaid y Cyngor yn cefnogi hawl yr unigolyn i breifatrwydd a bydd yn mynnu bod yr holl asiantaethau sy'n ymwneud â darparu a defnyddio systemau teledu cylch cyfyng cyhoeddus sy'n gysylltiedig â'r Ganolfan Rheoli Teledu Cylch Cyfyng yn derbyn bod yr egwyddor sylfaenol hon yn hollbwysig.
Nod y cynllun yw darparu gwyliadwriaeth o'r mannau cyhoeddus er mwyn cyflawni dibenion y cynllun. Bydd arwyddion yn rhoi gwybod am gamerâu cylch cyfyng mewn ardaloedd sy dan oruchwyliaeth. Mae'r arwyddion fel bod aelodau'r cyhoedd yn ymwybodol eu bod nhw'n mynd i mewn i barth sydd dan oruchwyliaeth Teledu Cylch Cyfyng. Mae'r arwyddion yn nodi'r sefydliad sy'n gyfrifol am y cynllun, pwrpasau'r cynllun a rhif ffôn. Fydd data ddim yn cael ei gadw'n hirach nag sydd ei angen a bydd y broses waredu gwybodaeth yn cael ei rheoleiddio.
Mae'r cynllun wedi'i gofrestru gyda'r Comisiynydd Gwybodaeth. Y rhif cofrestru yw Z4870111.
Bydd y cynllun yn cael ei reoli yn unol ag egwyddorion Deddf Diogelu Data 2018, Deddf Hawliau Dynol 1998 a phob deddf berthnasol arall.
Caiff adolygiadau o Ddiogelu Data a Gofynion Cyfreithiol eu cynnal yn flynyddol.

**4.3 Staff**
Caiff yr holl staff sy'n ymwneud â monitro Teledu Cylch Cyfyng eu sgrinio er budd diogelwch yn unol â Safon Brydeinig 7858.
**4.4 Hyfforddiant**
Mae pob gweithiwr sy'n ymwneud â monitro a gweithredu Teledu Cylch Cyfyng wedi derbyn hyfforddiant i'r safonau sy'n ofynnol gan Ddeddf Diwydiant Diogelwch Preifat 2001. Fel gofyniad pellach yn y Ddeddf uchod, caiff pob gweithredwr ei drwyddedu gan Awdurdod y Diwydiant Diogelwch.

**4.5 Gweithredu'r cynllun**
Mae'r system ar waith yn unol â'r Cod Ymarfer a'r Llawlyfr Gweithdrefnau cydnabyddedig. Mae'r cynllun wedi'i gofrestru gyda'r Comisiynydd Gwybodaeth, ac mae modd cael manylion amdano ar wefan y Comisiynydd Gwybodaeth. Mae'r cynllun yn gweithredu yn unol â gofynion Deddf Diogelu Data 2018, Deddf Hawliau Dynol 1998 a deddfwriaeth a chanllawiau perthnasol. Mae hefyd yn cydymffurfio â gofynion Codau Ymarfer Camerau Gwyliadwriaeth 2013.

**5.0 NEWIDIADAU O RAN GWEITHREDU, RHEOLAETH NEU BOLISI**
Fel y nodwyd yn y Cod Ymarfer, dim ond ar ôl ymgynghori â'r grŵp rheoli perthnasol ac ar ôl cytuno â'r sefydliad sydd â rôl gyfranogol yng ngweithrediad y system y bydd unrhyw newidiadau sylweddol i'r Cod Ymarfer yn cael ei roi ar waith.

**5.1** Diffiniad newidiadau sylweddol i'r cod yw newidiadau sy'n effeithio ar ei egwyddorion sylfaenol, gan gynnwys:

- Ychwanegu camerâu i'r system a'u hepgor
- Materion sydd â goblygiadau o ran preifatrwydd
- Ychwanegiadau at feini prawf defnyddiau a ganiateir e.e. dibenion y cynllun
- Newidiadau yn yr hawl i weld data personol, ac eithrio gofynion statudol
- Goblygiadau cyfreithiol sylweddol

**5.2** Diffinnir mân newidiadau i'r Cod Ymarfer yma fel materion gweithredol a gweithdrefnol sydd ddim yn effeithio ar yr egwyddorion a'r dibenion sylfaenol; mae'r rhain yn cynnwys:

- Ychwanegu contractwyr a'u hepgor
- Eglurhad, esboniadau a chywiriadau ychwanegol i'r cod presennol
- Ychwanegiadau at y cod ymarfer er mwyn cydymffurfio â gofynion
- Unrhyw ddeddfau statudol a newidiadau mewn deddfwriaeth droseddol

Mae modd i'r rheolwr a pherchennog y system gytuno ar fân newidiadau.
Mae'r Cod Ymarfer yn destun adolygiad blynyddol. Efallai y bydd monitro rheolaidd yn golygu bod angen cyflwyno dogfennau, gweithdrefnau a pholisïau y gellir eu harchwilio'n briodol mewn perthynas â'r ddeddfwriaeth Diogelu Data a Hawliau Dynol. Mae copi o'r Cod Ymarfer ar gael.

**6.0 CYNIGION AR GYFER Y CYNLLUNIAU, GAN GYNNWYS NODAU AC AMCANION**
Mae Canolfan Rheoli Teledu Cylch Cyfyng y Cyngor yn defnyddio'r dechnoleg ddiweddaraf mewn Teledu Cylch Cyfyng. Ystyrir bod hyn yn fanteisiol i bawb sy'n ymweld, yn byw ac yn gweithio yn yr ardal ac yn arbennig i'r rhai sydd ag anghenion arbennig.

Mae'r nodau ac amcanion yn aros yr un fath, sef atal a chanfod troseddau, lleihau ofn trosedd a gwneud yr ardal yn amgylchedd diogel.

**7.0 DADANSODDI A GWERTHUSO YSTADEGAU**

Er mwyn cyflawni gwerthusiad ystyrlon, rhaid asesu'r cynllun Teledu Cylch Cyfyng yn erbyn dangosyddion cyflawniad penodol sy'n berthnasol i amcanion y cynllun. Mae modd cyflawni hyn trwy ddefnyddio dangosyddion sydd wedi'u rhannu'n gategorïau Dangosyddion Cyd-destunol, Allweddol ac Ategol.

**7.1 Dangosyddion Cyd-destunol**

Mae Dangosyddion Cyd-destunol yn ymwneud ag amgylchiadau neu gefndir y fenter benodol. Yn yr achos hwn, pwrpas y Teledu Cylch Cyfyng yn bennaf yw atal a chanfod trosedd. Bydd y dangosyddion yn cynnwys ystadegau troseddau Prydain ac ystadegau wedi'u cofnodi gan yr heddlu ar gyfer y math yma o drosedd.

**7.2 Dangosyddion Allweddol**

Mae Dangosyddion Allweddol yn ymwneud ag amcanion gwirioneddol y fenter benodol ac yn ceisio mesur ei heffaith. Bydd hyn yn cynnwys cyfanswm y troseddau ar gyfer ardal yr heddlu. Bydd y categori yma hefyd yn cynnwys nifer y digwyddiadau a gofnodwyd gan Ganolfan Rheoli Teledu Cylch Cyfyng Cyngor Rhondda Cynon Taf i'r heddlu ac asiantaethau eraill.

**7.3 Dangosyddion Ategol**


Mae Dangosyddion Ategol yn cael eu defnyddio i wrthbrofi neu ddilysu'r dangosyddion allweddol. Bydd y mesuriadau'n cynnwys nifer y clipiau o ffilm tystiolaethol a gafodd eu hatafael gan yr heddlu sy'n cynnwys gwerth tystiolaethol.

**7.4 Dangosyddion Ategol**


Mae llwyddiant cynllun Teledu Cylch Cyfyng yn dibynnu i raddau helaeth ar fonitro rhagweithiol y gweithredwyr systemau. Dyfais oddefol yw'r dechnoleg soffistigedig yma yn bennaf, a heb ryngweithio dynol, rhaid bod rhywbeth yn digwydd o fewn ei olwg. Mae hyn yn wir hyd yn oed ar gyfer patrolau sydd wedi'u rhaglennu'n awtomatig. O ganlyniad i hynny, mae angen canfod a yw'r system yn cael ei defnyddio i'w llawn botensial gan y rhai sy'n gweithredu'r camerâu ac un ffordd o wneud hyn yw dadansoddi'r Adroddiadau Digwyddiadau.

**7.5. Adroddiadau am Ddamweiniau**


Yn ystod y cyfnod yma, cofnodwyd 3797 o achosion gan y Gweithredwyr Teledu Cylch Cyfyng. Mae'r tabl canlynol yn amlygu achosion a gofnodwyd gan weithredwyr gan ddefnyddio'r system teledu cylch cyfyng ar gyfer mannau cyhoeddus yn ystod 2023/24





Achosion fesul diwrnod yr wythnos




Achosion fesul awr o'r dydd






Achosion fesul mis






Achosion fesul mis


**7.5.2 Defnydd Camerâu**
Mae'r tabl canlynol yn ddadansoddiad o'r nifer o weithiau y defnyddiwyd pob camera i ddal achosion ar fideo. Wrth fonitro achos, mae'n arferol defnyddio nifer o gamerâu ac felly dydy'r ystadegau ddim yn debyg i'r nifer gwirioneddol o achosion sydd wedi'u harddangos yn y tablau blaenorol. Fodd bynnag, bydd hyn yn rhoi syniad o ddefnyddioldeb y camera i'r system gyffredinol











### 7.5.3 Arestiadau gyda chymorth Teledu Cylch Cyfyng

Dim ond un mesur cyflawni y mae modd ei ddefnyddio i nodi nifer yr arestiadau sydd wedi cael eu cynorthwyo gan ddefnyddio TCC, sef y rhai sydd wedi'u cofnodi ar gamera. Yr arestiadau rhagweithiol yw'r achosion y mae'r gweithredwr wedi eu harsylwi, eu monitro ac ymateb iddyn nhw, gan arwain at y camera'n dal rhywun yn cael ei arestio. Dylid nodi bod rhai o'r achosion wedi arwain at arestiadau lluosog. Serch hynny, mae hyn yn arwydd clir bod y system yn cael ei defnyddio'n rhagweithiol gan y gweithredwyr. Yn ystod 2023/2024.



### 7.5.4 Atafaelu Ffilmiau sy'n Dystiolaeth gan yr Heddlu

Un dangosydd priodol o gyflawniad yw nifer y ffilmiau y mae'r heddlu wedi'u gwylio rhag ofn bod modd eu defnyddio fel tystiolaeth. Mae'r ystadegau canlynol ar gyfer yr holl systemau sy'n cael eu monitro yn y Ganolfan Rheoli TCC ar gyfer y cyfnod dan sylw.
Yn 2023/24 rhannodd Gweithredwyr TCC y Cyngor 583 o glipiau o ffilm gyda'r Heddlu.




### 7.5.5 Cwynion

Gall aelod o'r cyhoedd sy'n dymuno gwneud cwyn am y system wneud hynny drwy weithdrefn gwyno Cyngor Rhondda Cynon Taf. Mae copïau o'r weithdrefn gwyno ar gael drwy'r ddolen ganlynol ac mae modd e-bostio'r cyfeiriad isod:

https://www.rctcbc.gov.uk/CY/GetInvolved/CommentsComplimentsandComplaints/Commentscomplimentsandcomplaintsprocedure.aspx

CymunedauDiogel@rctcbc.gov.uk

Mae gweithdrefn gwyno wedi'i nodi. Rydyn ni'n cadw cofnod o nifer y cwynion neu ymholiadau a dderbyniwyd ynghyd ag amlinelliad o'r camau a gymerwyd.
Yn ystod y cyfnod gwerthuso doedd dim unrhyw gwynion ynghylch y cynllun dan sylw.

### 7.5.6 Ceisiadau mynediad at ddata

Mae'r wybodaeth ganlynol yn gofnod cywir o'r ceisiadau mynediad amrywiol a dderbyniwyd gan yr adran Teledu Cylch Cyfyng yn ystod y cyfnod 2023/24.

Chwiliad data (Ceisiadau Mynediad at Ddata) – aelodau'r cyhoedd: 8
Chwiliad data Atodlen 5 – Cwmnïau yswiriant/Cyfreithwyr: 10
Chwiliad data Atodlen 2 – Awdurdod lleol: 75
Chwilio data Atodlen 2 – Heddlu: 238

***Lleoliadau'r Camerâu – Camerâu Mannau Cyhoeddus***

| | | | |
|---|---|---|---|
| 1 | Piler | Cylchfan Stryd y Bont, | Stryd y Bont, Stryd Llanofer, Stryd y Gorllewin, Heol Ynysangharad |
| 2 | Piler | Cyffordd Stryd Taf / Stryd y Bont. | Heol Gelliwastad, Stryd Morgan, Heol Berw, Stryd Taf |
| 3 | Wal | Maes Parcio Heol y Weithfa Nwy y tu ôl i siop Pep & Co. | Stryd Traws y Nant, maes parcio Gas Road |
| 4 | Wal | SHAWS Stryd Taf | Lôn Penuel, Stryd Taf, Stryd Traws y Nant |
| 5 | Piler | Lôn Penuel | Lôn Penuel, Stryd Taf |
| 6 | Wal | Stryd Taf, gyferbyn â 'Supercigs' | Stryd Taf, Stryd y Farchnad |
| 7 | Wal | Maes Parcio Heol y Weithfa Nwy | Stryd Traws y Nant, maes parcio Heol y Weithfa Nwy |
| 8 | Wal | Stryd y Farchnad | Stryd y Farchnad, Stryd yr Eglwys, Stryd yr Eglwys Uchaf |
| 9 | Wal | Stryd Taf | Stryd Taf, Stryd y Farchnad |
| 10 | Piler | Parc Ynysangharad, ar bont yn arwain yno | |
| 11 | Wal | Stryd y Felin | Stryd y Felin, Stryd Catrin, Heol Gelliwastad |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 12 | To | Stryd y Felin | Stryd y Felin, Stryd Catrin, Heol Gelliwastad |
| 13 | Wal | Stryd Taf, gyferbyn â 'Castle Bingo' | Stryd Taf, Stryd Fawr |
| 14 | Wal | Stryd Fawr, gyferbyn ag 'Angharad's' | Stryd Taf, Stryd Fawr, Broadway |
| 15 | To | Tŷ Sardis – yn edrych dros yr orsaf ac ati | Stryd Fawr, Broadway, Heol Sardis |
| 16 | To | Tŷ Sardis – yn edrych dros y system gylch | Broadway, Heol Sardis, Heol Gelliwastad, Stryd Catherine, Stryd yr Eglwys |
| 17 | Piler | Broadway, Pontypridd | Broadway, Stryd Fawr, Heol Sardis |
| 18 | Wal | Tŷ Sardis, tu blaen | Heol Sardis, Stryd Catherine |
| 19 | Piler | Pen uchaf Lôn Penuel, Pontypridd | Lôn Penuel, Heol Gelliwastad |
| 20 | Piler | Stryd y Felin – maes parcio Mill Field | |
| 21 | Piler | Maes Parcio Heol Sardis | Heol Sardis |
| 22 | Piler | Maes Parcio Heol Sardis | Heol Sardis |
| 23 | Piler | SBÂR | |
| | | | |
| 25 | Piler | SBÂR | |
| 26 | Piler | SBÂR | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 27 | Piler | Maes Parcio'r Iard Nwyddau | Stryd Morgan, Stryd y Bont |
| | | | |
| 29 | Wal | Maes Parcio Aml-lawr | Allanfa i gerddwyr |
| 30 | Wal | Maes Parcio Aml-lawr | Lefel 3 – Allanfa i gerddwyr |
| 31 | Wal | Maes Parcio Aml-lawr | Lefel 2 |
| 32 | Wal | Maes Parcio Aml-lawr | Lefel 3 |
| | | Maes Parcio Aml-lawr | |
| 33 | Wal | Maes Parcio Aml-lawr | Lefel 4 |
| 34 | Wal | Maes Parcio Aml-lawr | Lefel 5 |
| 35 | Wal | Maes Parcio Aml-lawr | Lefel 6 |
| 36 | Piler | Lido Ponty – Parc Ynysangharad | Parc Coffa Ynysangharad |
| 37 | Piler | Lido Ponty (Cefn) – Parc Ynysangharad | Parc Coffa Ynysangharad |
| 38 | Piler | Lido Ponty (Blaen) – Parc Ynysangharad | Parc Coffa Ynysangharad |
| 39 | Wal | Derbynfa – Tŷ Sardis | Tŷ Sardis |
| 40 | Wal | Maes parcio Tŷ Sardis | Tŷ Sardis |
| 41 | Wal | Tŷ Sardis – diogelwch | Tŷ Sardis |
| 42 | Wal | Tŷ Sardis – diogelwch | Tŷ Sardis |
| 43 | Wal | Tŷ Sardis – diogelwch | Tŷ Sardis |
| TONYSGUBORIAU | | | |
| 44 | Piler | Heol Talbot / Gorsaf Fysiau | Heol Talbot, Heol Cwm Elái |
| PONT-Y-CLUN | | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 45 | Piler | Ffordd Llantrisant, ar y gyffordd â Heol Meisgyn. | Ffordd Llantrisant, Heol Meisgyn |
| 46 | Piler | Ffordd Llantrisant, ar y gyffordd â Ffordd yr Orsaf | Ffordd Llantrisant, Ffordd yr Orsaf, Heol y Bont-faen, Teras yr Orsaf |
| 47 | Piler | Heol y Bont-faen, ar y gyffordd â Choedlan y Palalwyf | Ffordd Llantrisant, Heol y Bont-faen, Stryd Stuart, Heol yr Orsaf |
| 48 | Piler | Maes parcio gyferbyn â'r Ganolfan Gymuned | Ffordd Llantrisant, Heol yr Orsaf |
| ABERDÂR | | | |
| 49 | Piler | Stryd Caerdydd | Heol Caerdydd, Stryd Caerdydd, Stryd y Dug/A4059 |
| 50 | Piler | Maes Parcio Rhes y Nant | Stryd y Groes / Rhes y Nant |
| 51 | Piler | Stryd Caerdydd / Stryd y Farchnad | Stryd Caerdydd, Sgwâr Fictoria |
| 52 | Piler | Sgwâr Fictoria / Stryd Fawr | Sgwâr Fictoria, Stryd Fawr, Rhiw'r Mynach |
| 53 | Wal | Cyfnewidfa Ffonau, Stryd Fawr | Sgwâr Fictoria, Stryd Fawr |
| 54 | Piler | Y Stryd Las / Stryd Fawr | Stryd Fawr, Y Stryd Las, Stryd y Canon |
| 55 | Piler | Tu ôl i'r Llyfrgell, Aberdâr | Y Stryd Las |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 56 | To | Adeiladau'r Goron | Y Stryd Las, Stryd Fawr |
| 57 | Piler | Stryd y Canon / Stryd Fawr Aberdâr | Stryd y Canon, Stryd Fawr, Y Stryd Las |
| 58 | Piler | Stryd Seymour / Stryd Fawr | Y Stryd Fawr, Stryd Seymour, Heol Gadlys |
| 59 | Piler | Cylchfan ger 'Tesco' | Heol y Depo/A4059 |
| 60 | Piler | Ger Clwb Rygbi Aberdâr | Stryd y Dug, Stryd Caerloyw, Stryd Dean |
| 61 | Piler | Stryd y Canon / Stryd Cwm-gwyn | Stryd y Canon, Stryd Seymour, Stryd Cwm-gwyn, Stryd Dean |
| 62 | Piler | Stryd y Fasnach | Stryd y Canon, Stryd y Fasnach, Stryd Caerdydd |
| 63 | Piler | Stryd y Fasnach / Stryd y Dug | Stryd y Fasnach Street, Stryd y Dug |
| 64 | Piler | Lôn Boot | Lôn Boot, Stryd y Farchnad, |
| | | | |
| 65 | Piler | Stryd y Farchnad | Stryd y Farchnad |
| 66 | Piler | Stryd y Farchnad / Stryd y Dug | Stryd y Farchnad, Stryd y Dug |
| 67 | Piler | Gorsaf Fysiau | Stryd y Dug |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 68 | Piler | Aber-nant / Gorsaf Reilffordd | Heol Abernant, Stryd Wellington, Heol Cwm-bach |
| 69 | Piler | Mynedfa Ysgol Aberdâr / Safle Bysiau | A4059/Maes Parcio'r Ynys |
| 70 | Piler | Maes Parcio Ysgol Aberdâr 1 | Maes Parcio'r Ynys / Ysgol Gymuned |
| 71 | Piler | Maes Parcio Ysgol Aberdâr 2 | Maes Parcio'r Ynys / Ysgol Gymuned |
| 72 | Piler | Maes Parcio Ysgol Aberdâr 3 | Maes Parcio'r Ynys / Ysgol Gymuned |
| 73 | Piler | Maes Parcio Ysgol Aberdâr 4 | Maes Parcio'r Ynys / Ysgol Gymuned |
| 74 | Piler | Maes Parcio Ysgol Aberdâr 5 | Maes Parcio'r Ynys / Ysgol Gymuned |
| | | | |
| 75 | Piler | Maes Parcio Ysgol Aberdâr 6 | Maes Parcio'r Ynys / Ysgol Gymuned |
| 76 | Piler | Maes Parcio / Caeau Chwarae Ysgol Aberdâr 7 | Maes Parcio'r Ynys / Ysgol Gymuned |
| 77 | Piler | Maes Parcio Ysgol Aberdâr 8 | Maes Parcio'r Ynys / Ysgol Gymuned |
| 78 | Piler | Parc Sglefrio Ysgol Aberdâr | Maes Parcio'r Ynys / Ysgol Gymuned |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 79 | Piler | Safle Adeilad Ysgol Aberdâr | Maes Parcio'r Ynys / Ysgol Gymuned |
| 80 | | Maes Parcio Ysgol Aberdâr 5 | Maes Parcio'r Ynys / Ysgol Gymuned |
| | | | |
| 81 | Piler | Pwll Nofio Aberdâr – Ochr | Maes Parcio'r Ynys / Ysgol Gymuned |
| 82 | Piler | Pwll Nofio Aberdâr / Isffordd | Maes Parcio'r Ynys / Ysgol Gymuned |
| 83 | Piler | Pwll Nofio Aberdâr – Cefn | Maes Parcio'r Ynys / Ysgol Gymuned |
| PORTH | | | |
| 99 | Piler | Heol Coedcae, gyferbyn â 'The Lodge' | Heol Coedcae, Stryd y Nant, Heol Eirw |
| 100 | Piler | Cyffordd Pont Llwyncelyn / Heol Pontypridd | Pont Llwyncelyn, Heol y Gogledd, Heol Eirw, Heol Pontypridd |
| 101 | Wal | Heol Pontypridd, gyferbyn â chyffordd Stryd Hannah | Heol Pontypridd, Stryd Hannah |
| 102 | Wal | Stryd Hannah | Stryd Hannah, Heol Pontypridd, Stryd Taf y Gorllewin |
| 103 | Wal | Stryd yr Orsaf, gyferbyn â chyffordd Stryd Hannah | Stryd yr Orsaf, Stryd Hannah |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 104 | Piler | Heol Pontypridd / Sgwâr y Porth | Heol Pontypridd, Sgwâr y Porth |
| 105 | Wal | Stryd y Porth | Stryd y Porth |
| 106 | Piler | Sgwâr Tynewydd | Sgwâr Tynewydd, Heol Aber-rhondda, Ffordd y Fynwent |
| 107 | | Sgwâr y Porth | Sgwâr y Porth |
| PEN-Y-GRAIG | | | |
| 108 | Piler | Maes Parcio Heol Dinas | Heol Dinas, Heol y Ficerdy, Stryd Glan-nant |
| 109 | Sbâr | Cynnig i oosod camera ar y gylchfan wedi'i ohirio | |
| 110 | Piler/Wal | Heol Tyle-celyn, ar y gyffordd â Stryd y Cae / Stryd y Groes | Heol Tyle-celyn, Stryd y Cae, Stryd y Groes |
| 111 | Wal | Heol Tyle-celyn, ar y gyffordd â Stryd Glan-nant | Heol Tyle-celyn, Stryd Glan-nant, Heol Hendrecafn |
| 112 | Piler | Heol Tyle-celyn, gyferbyn â'r Clwb Rygbi | Heol Tyle-celyn |
| TONYPANDY | | | |
| 113 | Piler | Heol Tyle-celyn, gyferbyn â 'Welcome Inn' | Heol Tyle-celyn, Stryd Dunraven |
| 114 | Piler | Maes Parcio Stryd y Bont | Stryd Dunraven, Stryd y Bont, Heol y Drindod |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 115 | Wal | Stryd Dunraven, gyferbyn ag 'Oxfam' | Stryd Dunraven |
| 116 | Piler | Stryd Dunraven, gyferbyn â 'Hypervalue' | Stryd Dunraven, Heol Gelli |
| 117 | Piler | Ffordd Lliniaru Fewnol | Ffordd Lliniaru Fewnol, Heol Gelli |
| 118 | Piler | Stryd Dunraven, gyferbyn â 'Morgan's Café Bar' | Stryd Dunraven |
| 119 | Piler | Stryd Dunraven, rhan ogleddol yr ardal i Gerddwyr | Stryd Dunraven, Heol Gelli |
| 120 | Piler | Maes Parcio'r Ysgol Ramadeg | Maes Parcio'r Ysgol Ramadeg, Stryd Brynhyfryd |
| 121 | Piler | Stryd De Winton / Stryd Dunraven | Stryd De Winton, Stryd Dunraven, Heol Gilfach, Heol Brynhyfryd |
| 122 | Piler | Maes Parcio Neuadd y Dref | Stryd De Winton, Stryd Dunraven |
| 123 | Wal | Heol Llwynypia, ar y gyffordd â Stryd yr Eglwys | Heol Llwynypia, Stryd yr Eglwys |
| 124 | Piler | Heol Llwynypia, gyferbyn â'r Gwasanaethau Cymdeithasol | Heol Llwynypia, Heol Berw |
| CLYDACH | | | |
| 125 | | Stryd y Wern, gyferbyn â Rhif 105 | Stryd y Wern |
| 126 | | Stryd Marian, gyferbyn â 'Chastell-ar-y-Bryn' | Stryd Marian |
| 127 | Piler/Wal | Stryd y Wern, gyferbyn â Rhif 105 | Stryd y Wern, Teras Hyfryd |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 128 | Piler/Wal | Stryd Marian, gyferbyn â 'Chastell-ar-y-Bryn' | Stryd y Wern, Stryd Marian, Teras Morton, Stryd Howard |
| TREORCI | | | |
| 129 | Piler | Stryd Fawr, ar y gyffordd â Stryd y Tywysog | Stryd Fawr, Stryd y Tywysog, Stryd y Nant |
| 130 | Wal | Stryd Fawr, ar y gyffordd â Heol yr Orsaf | Stryd Fawr, Heol yr Orsaf, Stryd Dyfodwg |
| 131 | Piler | Heol yr Orsaf, ger Theatr y Parc a'r Dâr | Stryd Fawr, Heol yr Orsaf, Stryd Bute, Stryd y Capel |
| 132 | Piler | Stryd Bute, ar y gyffordd â Heol Glyncoli | Stryd Bute, Heol Glyncoli, Stryd Howard |
| 133 | Wal | Stryd Bute, ar y gyffordd â Stryd Herbert | Stryd Bute, Stryd Luton, Stryd Herbert |
| 134 | Piler | Stryd Bute, ar y gyffordd â Ffordd y Fynwent | Stryd Bute, Ffordd y Fynwent, Stryd Caerdydd |
| Glynrhedynog | | | |
| 135 | Piler | Y Lan | Stryd yr Orsaf, Heol y Gogledd, Ffordd y Rhondda |
| 136 | Piler | Stryd Fawr | Stryd yr Orsaf, Heol y Gogledd, Ffordd y Rhondda |
| 137 | Piler | Maes parcio Stryd y Leimwydden | Maes parcio Stryd y Leimwydden |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 138 | Piler | Maes parcio Stryd y Leimwydden | Maes parcio Stryd y Leimwydden |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Maerdy | | | |
| 139 | Wal | Heol Maerdy / Teras yr Orsaf | Teras yr Orsaf, Heol Maerdy, Stryd Ceridwen, Stryd yr Ysgol, |
| 140 | Wal | Heol Maerdy / Teras yr Orsaf | Teras yr Orsaf, Heol Maerdy, Stryd Ceridwen, Stryd yr Ysgol |
| 141 | Piler | Heol Alfred | Heol Alfred, Heol Maerdy |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Cae'r Faerdref, Pentre'r Eglwys | | | |
| Cae'r Faerdref 1 | Piler | Cae'r Faerdref | Cae'r Faerdref, Llys y Castell |
| Cae'r Faerdref 2 | Piler | Cae'r Faerdref / Cwrt Maes-y-ffynnon | Cae'r Faerdref, Cwrt Maes-y-ffynnon, Llys y Castell |
| Cae'r Faerdref 3 | Piler | Llys y Castell | Llys y Castell, Cae'r Faerdref |

***Mae'r Ganolfan Rheoli TCC hefyd yn rheolydd data ar gyfer nifer o systemau TCC sydd yn y safleoedd/adeiladau isod sy'n eiddo i Gyngor RhCT.***

| *Safle* | *Nifer y camerâu* |
|---|---|
| Lido Pontypridd | 21 |
| Parc Treftadaeth Cwm Rhondda | 16 |
| Parc Gwledig Cwm Dâr | 35 |
| Theatr y Colisëwm, Aberdâr | 15 |
| Theatr y Parc a'r Dâr, Treorci | 15 |
| Ysgol Gynradd Mihangel Sant Eglwys Gatholig Rhufain, Trefforest. | 15 |
| Ysgol Gynradd y Seintiau Gabriel a Raphael Eglwys Gatholig Rhufain | 5 |
| Ysgol Gynradd y Gelli | 17 |
| Ysgol Gynradd y Cymer | 17 |
| Llanilltud Faerdref | 15 |
| Canolfan Aman, Godreaman | 9 |
| Canolfan i Blant Rhydfelen | 16 |
| Dechrau'n Deg Pen-rhys. | 10 |
| Ystafelloedd Hamdden Dyffryn Taf | 29 |
| Canolfan Hamdden Rhondda Fach | 38 |
| Canolfan Chwaraeon Llanilltud Faerdref | 27 |
| Canolfan Hamdden Rhondda Fawr | 19 |
| Canolfan Hamdden Llantrisant | 17 |
| Pwll Nofio Bronwydd, Porth | 9 |
| Pwll Nofio Glynrhedynog | 13 |

| | |
|---|---|
| Canolfan Hamdden Tonyrefail | 24 |
| Llys Cadwyn 1 | 24 |
| Canolfan iBobUn Sardis | 14 |
| Canolfan iBobUn Porth | 7 |
| Tŷ Elái | 28 |
| Y Pafiliynau | 41 |
| Tŷ Trevithick | 38 |
| Tŷ Model, Llantrisant | 8 |
| Tŷ Bronwydd | 26 |
| Tŷ Oldway, Porth | 16 |
| Depo Abercynon | 19 |
| Parc Busnes Hepworth | 19 |
| Tŷ Glantaf | 44 |
| Depo Dinas | 34 |
| Tŷ Amgen, Aberdâr | 17 |
| Canolfan Ailgylchu yn y Gymuned Glynrhedynog | 5 |
| Canolfan Ailgylchu yn y Gymuned Llantrisant | |
| Canolfan Ailgylchu yn y Gymuned Treherbert | 16 |
| Depo Parc Aberdâr | 12 |
| Llyfrgell Aberdâr | 9 |
| Canolfan iBobUn Porth | 7 |
| Llyfrgell Aberpennar | 30 |
| Hwb Glynrhedynog. | 16 |
| Tonypandy | 20 |
| Llyfrgell Treorci | 30 |
| Mynwent Trealaw | 7 |
| Amlosgfa Glyntaf | 12 |
| Amlosgfa Llwydcoed | 12 |